






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

13 Tachwedd 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

13 Tachwedd 2020

Crynodeb o’r Prif Bwyntiau

- Mae SAGE wedi amcangyfrif bod R_t ar gyfer Cymru yn 0.9 – 1.2 a chyfradd twf Cymru rhwng -3% a +2%.
- Erys defnydd gwelyau’r unedau gofal dwys ar gyfer gofal 1:1 cleifion y GIG (COVID-19 a rhai nad ydynt yn COVID-19) dros 100% o’r capasiti, ar 108% (cynnydd o 1% ers briff yr wythnos diwethaf).
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd yng Nghymru ar draws pob grŵp oedran wedi gostwng o gymharu â’r wythnos flaenorol ac mae cyfraddau profion positif wedi gostwng. Mae’r arwyddion cynnar hyn yn galonogol ond dylid eu trin yn ofalus gan fod cyfraddau profion positif yn parhau’n uchel a defnydd gwelyau ysbytai yn debyg i frig yr achosion ym mis Ebrill. Gwelwyd yr achosion mwyaf ymhlith pobl 85 oed a hŷn.
- Yn ôl amcangyfrifon astudiaeth heintiau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer yr wythnos rhwng 31 Hydref a 6 Tachwedd 2020, amcangyfrifir bod cyfartaledd o 1.16% o’r boblogaeth gymunedol wedi cael COVID-19. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 o bob 85 o unigolion, neu amcangyfrif o 35,300 o bobl i gyd. Mae hyn wedi cynyddu o 1 person ym mhob 110, fel yr adroddwyd yr wythnos diwethaf.
- Er i’r cyfnod atal byr arwain at ostyngiadau mawr mewn symudedd yn ystod yr wythnos gyntaf, dangosodd yr ail wythnos fwy o symudedd – yn debygol oherwydd ei bod yn wyliau hanner tymor i ysgolion yn yr wythnos gyntaf gydag ysgolion ar gau a phobl yn cymryd amser i ffwrdd o’r gwaith (hyder canolig i uchel).
- Mae data yn dilyn y cyfnod atal byr yn dangos bod symudedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfnod atal byr.
- Ar 4 Tachwedd 2020, rhoddodd awdurdodau Denmarc wybod am amrywiad (neu fwtaniad) o feirws SARS-CoV-2 sydd wedi dod i’r amlwg mewn mincod, gyda nifer fach o achosion dynol cysylltiedig.
- Dangosodd ymchwiliadau cynnar fod gwrthgyrff sy’n amddiffyn rhag haint yn llai effeithiol yn erbyn y math hwn o’r feirws. Er bod yr ymchwiliadau hyn yn parhau, mae’r canfyddiadau cynnar yn codi pryderon ynghylch risg y mwtaniadau hyn mewn mincod a rhywogaethau cysylltiedig (e.e. ffuredau), a allai lesteirio ymdrechion ymyrraeth COVID-19, gan gynnwys brechlynnau a thriniaethau.

- Yn y DU, dim ond ffuredau sy'n cael eu cadw mewn lleoliadau dwysedd uchel, gan fridwyr ar raddfa fawr, neu fel rhan o gasgliadau anifeiliaid gwaith neu safleoedd ymchwil anifeiliaid. Ni chredir bod ffuredau a gedwir mewn safleoedd domestig dwysedd isel yn peri risg sylweddol.
- Mae asesiad risg ansoddol o'r risg i boblogaeth y DU gan gynnwys camau gweithredu ac argymhellion ar gael yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935776/20201110_EI_RA_SARS-CoV02_Mustelinae.pdf
- Cyhoeddwyd papurau wedi'u diweddarau ar drosglwyddiad COVID-19 mewn plant gan [TAG](#) a [SAGE](#).
- Cyhoeddwyd [papur](#) gan y Grŵp Cynghori Technegol yn amlinellu ystyriaethau ymddygiadol allweddol ar ôl y cyfnod atal byr ar 9 Tachwedd.
- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol [yma](#).

Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu


- Mae SAGE yn amcangyfrif (12 Tachwedd) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng -0.03 a 0.02 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn gostwng neu'n cynyddu rhwng -3% a +2% y dydd.
- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru (12 Tachwedd) rhwng 0.9 ac 1.2. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae gwerth consensws R_t SAGE yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o fodelau sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a data arolwg cyswllt. Mae oedi o 1-3 wythnos ar gyfer llawer o'r dangosyddion hyn o pan fyddent yn codi'r newid mewn heintiau.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.
- Dylid dehongli amcangyfrifon yn ofalus a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

Amser dyblu

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr amseroedd dyblu ar gyfer heintiadau newydd ledled y DU rhwng 28 a 63 diwrnod.
- Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profi ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn parhau’n ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws ardaloedd daearyddol ac mae’n bosibl y bydd amseroedd dyblu neu haneru cyflymach mewn rhai ardaloedd.

Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd am bob 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran. Mae achosion wedi bod yn gostwng ym mhob grŵp oedran.
- Gwelwyd yr achosion mwyaf ymhlith pobl 90+ oed, ond mae arwyddion bod nifer yr achosion yn y grŵp oedran hwn wedi gostwng o gymharu ag wythnosau blaenorol.
- Nodwch fod y raddfa liw bellach wedi'i haddasu fel ei bod yn haws gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau niferoedd achosion am bob 100k o'r boblogaeth.




Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 13/11/2020

Marwolaethau

- Yn ôl data amodol am dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 121 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion

Cymru lle roedd COVID-19 wedi’i nodi ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 44 (a ddaeth i ben ar 30 Hydref). Mae hyn yn gynnydd o 56 ers yr wythnos flaenorol.


- Nid yw marwolaethau o bob achos wedi cyrraedd lefelau arwyddocaol o uchel ar gyfer yr adeg hon o’r flwyddyn.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y marwolaethau COVID-19 (unrhyw sôn amdano ar y dystysgrif marwolaeth) a chyfartaledd 5 mlynedd (2015-2019), ar gyfer yr wythnos yn dod i ben ar 30 Hydref 2020 (Wythnos 44).



Diweddariad rhyngwladol

- Erbyn diwedd wythnos 45 (8 Tachwedd 2020), y gyfradd hysbysu achosion 14 diwrnod ar gyfer yr UE/EEA a'r DU, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ECDC o ffynonellau cenedlaethol swyddogol o 31 o wledydd, oedd 602.9 (ystod gwledydd: 49.5–1506.3) am bob 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd wedi bod yn cynyddu ers 112 diwrnod.
- Y gyfradd marwolaethau COVID-19 14 diwrnod ar gyfer yr UE/EEA a'r DU, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ECDC o ffynonellau cenedlaethol swyddogol o 31 o wledydd, oedd 64.0 (ystod gwledydd: 0.0–244.5) am bob miliwn o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd wedi bod yn cynyddu ers 58 diwrnod.
- Yn seiliedig ar ddata a adroddwyd i'r System Wylidwriaeth Ewropeaidd (TESSy) o 25 o wledydd, ymhlith pobl dros 65 oed, gwelwyd lefelau uchel (o leiaf 60 am bob 100,000) neu gynnydd parhaus yn y cyfraddau hysbysu o achosion COVID-19 14 diwrnod o'i gymharu â'r wythnos diwethaf mewn 24 o wledydd (Awstria, Gwlad Belg, Croatia, Cyprus, Gweriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Gwlad Groeg, Hwngari, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia a Sbaen).


- Mae data wedi'i gyfuno o 18 o wledydd ar gyfer wythnos 45 yn dangos bod 1.7 o gleifion o bob 100,000 o'r boblogaeth yn yr unedau gofal dwys oherwydd COVID-19, sef 76% o'r brig uchaf o ddefnydd gwelyau unedau gofal dwys a welwyd yn ystod y pandemig. Derbyniadau unedau gofal dwys wythnosol wedi'u cyfuno yn seiliedig ar ddata o 11 o wledydd oedd 3.4 o dderbyniadau newydd am bob 100,000, sef 87% o'r gyfradd uchaf hyd yma.
- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion am bob 100,000 o bobl mewn cyfnod o 13 diwrnod yn wythnosau 44-45. Fel yr wythnos diwethaf, mae'n amlwg bod yr achosion wedi codi i dros 240 o achosion am bob 100,000 o bobl mewn llawer o ranbarthau.
- Mae'n bwysig nodi bod categorïau ychwanegol wedi'u hychwanegu o'r wythnos hon ymlaen i nodi a gwahaniaethu rhwng rhanbarthau sydd â niferoedd achosion dros 240, 480 a 960 am bob 100,000 o'r boblogaeth.
- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael [yma](#).



Effeithiau'r cyfnod atal byr – arwyddion cynnar

- Mae'r ffigur isod yn rhoi arwydd cynnar bod nifer yr achosion COVID-19 a gadarnhawyd bob dydd (cyfartaledd treigl 7 diwrnod) yn gostwng.
- Mae'r gostyngiad hwn yn nifer yr achosion yn galonogol, ond dylid ei drin yn ofalus gan y gallai hyn fod o ganlyniad i lawer o ffactorau, gan gynnwys patrymau profi ac ymddygiadau gwahanol oherwydd y cyfyngiadau cyfredol.

- Mae cyfraddau profion positif wedi gostwng ond maent yn parhau i fod yn uchel ledled Cymru, ac mae defnydd gwelyau mewn ysbytai yn debyg i'r brig ym mis Ebrill.




Ffynhonnell: Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 13 Tachwedd 2020

Canlyniadau astudiaeth heintio SYG

- Ar gyfer yr wythnos rhwng 31 Hydref a 6 Tachwedd 2020, amcangyfrifir bod cyfartaledd o 1.16% o'r boblogaeth gymunedol wedi cael COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.84% i 1.53%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 o bob 85 o unigolion (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 120 i 1 o bob 65), neu amcangyfrif o 35,300 o bobl i gyd (cyfwng credadwy: 25,500 i 46,600).
- Mae'r gyfradd wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer gymharol isel o brofion positif, mae cryn ansicrwydd a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.
- Nid yw effaith y cyfnod atal byr diweddar i'w gweld yn y data eto. Efallai y bydd bwlch byr cyn i'r effaith gael ei hadlewyrchu yn yr arolwg hwn.
- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion cadarnhaol y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion cadarnhaol hyn.

Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt


- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer y cyfnod 6–9 Tachwedd yng Nghymru yn dangos canlyniadau tebyg i'r hyn a welwyd bythefnos yn ôl o ran nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Bu cynnydd pellach yn nifer y bobl a oedd yn dweud eu bod yn gweithio gartref, yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithiau nad ydynt yn hanfodol. Mae'r data hyn yn cynnwys penwythnos olaf y cyfnod atal byr. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.





- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 2-8 Tachwedd yn dangos bod 50% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau presennol yng Nghymru'n 'dda iawn'. Dywedodd 42% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 45% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 45% arall yn dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i [ganlyniadau'r astudiaeth gymdeithasol COVID](#). Dywedodd 23% fod pobl o'r tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig yn dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 16% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill.

Symudedd

- Dangosodd yr holl ddata symudedd ostyngiad mawr iawn yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod atal byr. Dangosodd data ail wythnos y cyfnod atal byr gynnydd mewn symudedd o'i gymharu â'r wythnos gyntaf (a oedd yn cyd-daro â'r gwyliau hanner tymor). Ers i'r cyfnod atal byr ddod i ben, mae symudedd wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn i'r cyfnod atal byr ddechrau. Mae symudedd yn y DU yn dangos gostyngiadau mawr, oherwydd y cyfyngiadau yn Lloegr a ddechreuodd ar 5 Tachwedd.
- Mae [symudedd defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod symudedd 16% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 13 Tachwedd (sy'n cynnwys rhai diwrnodau yn ystod y cyfnod atal byr). Mae hyn i fyny o 28% yr wythnos flaenorol. Canran y defnyddwyr a oedd yn aros yn eu hunfan (yn agos i'w cartref) oedd 28%, i lawr o 33% yr wythnos flaenorol. Yn yr wythnos cyn y cyfnod atal byr roedd yn 25%. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.
- Dengys [data apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 13 Tachwedd (sy'n cynnwys rhai diwrnodau yn ystod y cyfnod atal byr) fod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu o'r wythnos flaenorol i 85% o'r llinell sylfaen (i fyny o 68%). Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn dangos cynnydd. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 10 Tachwedd (sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar ôl y cyfnod atal byr) yn dangos gostyngiadau mewn data preswyl (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref) o gymharu â'r wythnos flaenorol, 13% yn uwch na'r llinell sylfaen i lawr o 16%. Mae pob categori arall yn dangos cynnydd o'i gymharu â'r wythnos cyn y cyfnod atal byr – gweithleoedd yn fwyaf nodedig – 32% yn is na'r llinell sylfaen, ond i fyny o 41% yn is na'r llinell sylfaen yr wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Dengys data ffonau symudol dienw ac agrededig gan O2 hyd 6 Tachwedd gynnydd mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol (hanner tymor). Cynyddodd y teithiau a gychwynnodd yng Nghymru 6 phwynt canran i 46% yn is na'r llinell sylfaen. Nid oedd teithiau yn Lloegr wedi newid o gymharu â'r wythnos flaenorol (sylwer bod y data'n cwmpasu'r 2 ddiwrnod cyntaf o gyfyngiadau yn Lloegr). Mae'r llinell sylfaen ar gyfer data O2 yr un diwrnod o'r wythnos yn wythnos gyntaf mis Mawrth.
- Er i'r cyfnod atal byr arwain at ostyngiadau mawr mewn symudedd yn yr wythnos gyntaf, dangosodd yr ail wythnos fwy o symudedd – yn debygol o fod oherwydd ei bod hi'n wyliau hanner tymor yn ystod yr wythnos gyntaf gydag ysgolion ar gau a phobl yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith (fel y dangosir yn y gwahaniaeth yn siart symudedd y gweithleoedd isod). Mae data yn dilyn y cyfnod atal byr yn dangos bod symudedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfnod atal byr. Mae'r dyddiau cyntaf yn awgrymu bod pobl sy'n treulio amser gartref (symudedd preswyl) a phobl sy'n mynd i weithio (gweithle) yn debyg i'r lefelau cyn dechrau'r cyfnod atal byr.
- Mae'r siartiau isod yn dangos newidiadau mewn symudedd o'r adeg y dechreuodd y cyfyngiadau lleol neu'r cyfnod atal byr. Er enghraifft, dechreuodd y cyfyngiadau lleol yng Nghaerffili ar yr 8 Medi ac yng Nghonwy ar 1 Hydref. Ystyrir y rhain fel diwrnod 0 yn y dadansoddiad – felly 7 diwrnod yn y siartiau fyddai 8 Hydref ar gyfer Conwy neu 15 Medi ar gyfer Caerffili.



Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 6949 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynnydd o 317 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 12 Tachwedd:

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac Galw Iechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Gostyngodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) ac amheuaeth o COVID-19 yn wythnos 45.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Gostyngodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan labordai yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol a gostyngodd cyfradd positifrwydd y profion.
- Yn ystod wythnos 45, lleihaodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran; roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85 oed a hŷn.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a chyfradd positifrwydd y profion wedi gostwng mewn llawer o ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru.
- Gostyngodd nifer yr achosion a gadarnhawyd a dderbyniwyd i ysbytai o gymharu â'r wythnos flaenorol, ond mae achosion a gadarnhawyd sy'n gleifion mewnol yn yr ysbyty wedi parhau i gynyddu'n genedlaethol, gyda'r niferoedd ar eu huchaf ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar hyn o bryd.
- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol, ond bod y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld lleihad mewn achosion a gadarnhawyd a chanran y profion positif ar gyfer SARS-CoV2.
- Mae nifer fawr o ddigwyddiadau'n dal i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl ac ysgolion.
- Sefydlwyd cyfyngiad 'cyfnod atal byr' Cymru gyfan ar deithio nad yw'n hanfodol y tu allan i'r cartref rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd.


- Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion a gadarnhawyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf, yn enwedig mewn oedolion ifanc.
- Mae’r marwolaethau oherwydd pob achos ar y lefelau a ddisgwylir yr adeg hon o’r flwyddyn. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.

Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 13 Tachwedd). Mae'r cyfanswm o ran defnydd gwelyau ysbytai ar gyfer cleifion COVID-19 a gadarnhawyd wedi bod yn codi ac mae wedi mynd y tu hwnt i'r 'dangosydd sbarduno' o 500 claf y cytunwyd arno.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 13 Tachwedd). Nid yw'r defnydd o welyau mewn unedau gofal dwys yn ymwneud â COVID wedi taro trothwy'r 'dangosydd sbarduno' eto, ond mae'n dangos tuedd ar i fyny. Mae cyfanswm y defnydd o welyau gofal critigol (ar gyfer cleifion COVID a chleifion eraill) yn uwch na'r dangosydd sbarduno y cytunwyd arno, ac yn cynyddu rhywfaint.




- Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys ym myrddau iechyd Cymru. Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.
- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 257 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.
- Mae'r tabl isod bellach yn cynnwys yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae modd eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru).
- Diweddarwyd y data ysbytai ar 13/11/2020.


Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 %	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio)	Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt	Cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19
Cymru	64%	108%	3	51
Aneurin Bevan (ABUHB)	51%	78%	1	4
Betsi Cadwaladr (BCUHB)	76%	123%	1	4
Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)	70%	120%	0	21
Caerdydd a'r Fro (CVUHB)	51%	139%	0	9

Hywel Dda (H DUHB)	53%	77%	0	1
Bae Abertawe (SBUHB)	97%	100%	1	12


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

